**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 trwy Zoom**

**Yn bresennol**
Julia Hughes (Cadeirydd)
Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd)
Gill Murgatroyd
Gareth Pritchard
Y Cynghorydd Owen Thomas, Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Michael Dixon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Matt Georgiou, yn dirprwyo ar ran Gareth Owens
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Datganodd Julia Hughes ei bod wedi bod yn rhan o achos Cyngor Sir Ddinbych yr adroddwyd yn ei gylch yn llyfr achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd angen trafod unrhyw faterion yn codi.

7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

7.1 Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am bresenoldeb cynghorwyr yng nghyfarfodydd yr ATA. Roedd adroddiad a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2019 wedi'i atodi fel nodyn atgoffa.

7.2 Nodwyd bod presenoldeb yn gyffredinol yng nghyfarfodydd yr ATA wedi gwella ers i'r Pwyllgor Safonau fod yn goruchwylio'r mater. Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau a oedd wedi mynychu llai na 50% o gyfarfodydd ers mis Tachwedd 2020.

7.3 Nodwyd bod Aelodau'n derbyn tâl blynyddol a bod teimlad cyffredinol o annhegwch bod gan yr Aelodau hynny a oedd â lefel isel o bresenoldeb hawl i'r un swm â'r Aelodau hynny a oedd â lefel uchel o bresenoldeb.

7.4 Ar ôl trafod y mater yn helaeth a chydnabod y byddai Awdurdod newydd ar waith erbyn mis Mehefin oherwydd bod etholiadau awdurdodau lleol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022, **PENDERFYNWYD bod Matt Georgiou a Gareth Owens yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i:**

- **ganfod barn ar gynyddu isafswm disgwyliad presenoldeb yng nghyfarfodydd yr ATA i isafswm o 50% yn effeithiol o fis Mehefin 2022;**
- **cynnwys yn y llythyr wybodaeth ddienw am bresenoldeb Aelodau a chyfeirio at y ffaith bod presenoldeb yn gyffredinol dda a'r gobaith yw y bydd cyfarfodydd rhithiol yn helpu i gynyddu'r presenoldeb.**

8 AILBENODI AELODAU ANNIBYNNOL

8.1 Hysbyswyd yr Aelodau bod tymor Julia Hughes a Sally Ellis yn dod i ben ar 31 Rhagfyr. Roedd yr ATA yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021 wedi cymeradwyo ailbenodi'r ddwy fel aelodau annibynnol am ail dymor o bedair blynedd o 1 Ionawr 2022 i 31 Rhagfyr 2025.

8.2 Nodwyd y dylid ychwanegu cynllunio olyniaeth at flaengynllun gwaith y Pwyllgor er mwyn sicrhau na fyddai cyfnodau aelodau profiadol i gyd yn dod i ben ar unwaith.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

9 ARSYLWADAU AELODAU ANNIBYNNOL AR GYFARFODYDD ATA

9.1 Nodwyd bod pob aelod annibynnol wedi arsylwi ar o leiaf un cyfarfod o'r Awdurdod. Cytunwyd bod y Dirprwy Glerc yn coladu'r holl adborth i un ddogfen er mwyn i'r Cadeirydd ystyried themâu cyffredinol i'w gweithredu/trafod yn y cyfarfod nesaf. Yn ogystal, byddai'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau yn cael ei gylchredeg.

9.2 **PENDERFYNWYD trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.**

10 CYDBWYLLGOR SAFONAU

10.1 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc fod Gareth Owens wedi ceisio cysylltu ag awdurdod y parc cenedlaethol i drafod cysyniad cydbwyllgor safonau; fodd bynnag, ni chafwyd ymateb hyd yma. Cytunodd yr Aelodau y gallai fod mwy o bwysau i symud ymlaen â hyn o ganlyniad i adolygiadau etholaethau.

10.2 **PENDERFYNWYD cadw golwg ar hyn a'i ychwanegu at y flaenraglen waith.**

11 RHIFYN 24 O LYFR ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (PSOW)

11.1 Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r rhifyn diweddaraf (rhifyn 24) o lyfr achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

11.2 Roedd yr Aelodau o'r farn, er mwyn osgoi cwynion o'r fath, ei bod yn hanfodol bod yr hyfforddiant gorau ar gael er mwyn lliniaru ar y risg gymaint â phosibl.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a bodlonwyd yr aelodau nad oedd angen cymryd unrhyw gamau yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru er mwyn osgoi cwynion tebyg.**

12 ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

12.1 Rhoddodd yr adroddiad i'r Pwyllgor wybodaeth am yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru.

12.2 Esboniodd y Dirprwy Glerc gefndir y fframwaith a nodwyd bod y Fframwaith Safonau Moesegol cyfredol wedi'i greu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei diwygio ychydig yn y cyfamser ond nid yw wedi cael ei hadolygu'n sylfaenol ers ei sefydlu. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi Richard Penn i adolygu'r fframwaith cyfan a gwneud argymhellion ac mae ei adroddiad bellach wedi'i gyflwyno. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i ystyried, bydd LlC yn pasio unrhyw ddeddfwriaeth sydd ei hangen mewn ymateb i'r adolygiad cyn diwedd y tymor llywodraeth leol hwn.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am ganlyniad yr adolygiad.**

13 CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU GYFAN

13.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad sy'n egluro diben y gynhadledd a'r paratoadau ar ei chyfer ac i geisio unrhyw syniadau am bynciau trafod defnyddiol ar gyfer y gynhadledd.

13.2 Nodwyd bod cynhadledd safonau ar gyfer pob Pwyllgor Safonau yn cael ei chynnal bob dwy flynedd er mwyn rhannu arfer da a darparu hyfforddiant. Fe'i trefnir yn rhanbarthol a bydd y gynhadledd nesaf yn cael ei threfnu gan ranbarth Gogledd Cymru.

13.3 Nodwyd bod yr adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol mor bwysig fel y bydd yn sail i'r holl/rhan fwyaf o'r drafodaeth yn y gynhadledd.

13.4 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu cynhadledd debyg o'r blaen ac y byddai'n annog pob aelod i fod yn bresennol. Gan y bydd yn cael ei chynnal ar-lein dylai fod yn haws gwahodd mwy o bobl.

13.5 **PENDERFYNWYD nodi'r paratoadau ar gyfer y gynhadledd.**

14 BLAENGYNLLUN GWAITH

14.1 Cytunwyd y byddai gan y Pwyllgor flaengynllun gwaith ac awgrymwyd bod cynllun ar waith ar gyfer o leiaf tri chyfarfod ymlaen llaw. Felly, cytunodd yr Aelodau ar y blaengynllun gwaith canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

**10 Chwefror 2022**
Hyfforddiant – pryd mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol?
Fframwaith Safonau Moesegol - Canlyniadau'r Adolygiad
Adborth ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd
Ôl-drafodaeth ar Fforwm Safonau 2021 (os yw'n digwydd)
Ôl-drafodaeth ar Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan
Adroddiad Blynyddol a llyfr achosion yr Ombwdsmon
Adolygiad o gyfansoddiad – adborth gan y grŵp adolygu

Y cyfarfodydd canlynol i edrych ar ddechrau adolygu'r rhestr o bolisïau a chadw mewn cof gynllunio olyniaeth aelodau annibynnol.

**Hefyd mae angen cadw golwg ar y materion canlynol**
Cynllunio olyniaeth ar gyfer y Pwyllgor Safonau
Cydbwyllgor Safonau

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r blaengynllun gwaith.**

15 MATERION BRYS

15.1 Dim materion brys i'w hystyried.